





Coeden  
Ddarllen  
Rhydychen

# Achub!



Roderick Hunt  
Alex Bayliss





Roedd cit swigod gan Wilff. Roedd ef a Cad yn chwythu swigod.

“Whiw! Mae’r swigod hyn yn anferth!” meddai Cad. Yn sydyn dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio.

“Mae’r allwedd yn disgleirio,” meddai Wilff. “I ble’r aiff yr hud â ni y tro hyn?”





Aeth yr hud â nhw i le gwastad caregog. Doedd dim coed ac roedd mynyddoedd uchel o’u cwmpas ymhob man.

“Does dim byd yma,” meddai Wilff. “Pam mae’r allwedd hud wedi dod â ni i’r lle hwn?”

“Wn i ddim,” meddai Cad.



Yn sydyn clywon nhw sŵn awyren. Edrychodd y ddau i fyny. Pwyntiodd Wilff.

“Mae yna awyren,” galwodd. “Rwy’n credu ei bod yn ceisio glanio.”

“Mae’n lle rhyfedd i lanio awyren,” meddai Cad.

“Gobeithio y bydd yn llwyddo.”






Hedfanodd yr awyren mewn cylch. Daeth i mewn yn isel iawn. Yna cyffyrddodd â'r ddaear.

Sbonciodd yr awyren ar y tir garw. Bownsiodd ar y creigiau a'r cerrig.

Daliodd Wilff ei anadl.

“Rwy'n credu ei bod yn mynd i daro'r ddaear,” meddai.




Yna, trawodd un o'r olwynion garreg fawr. Roedd sŵn crensiann wrth i'r olwyn gael ei rhwygo i ffwrdd.

Trodd yr awyren a stopio. Roedd un o'r adenydd wedi'i rhwygo i ffwrdd.

Rhedodd Cad a Wilff at yr awyren.

“Gobeithio nad yw'r peilot wedi anafu,” ebychodd Cad.





Dringodd y peilot allan o'r awyren. Edrychodd ar yr olwyn a'r adain oedd wedi eu rhwygo.

Rhuthrodd Cad a Wilff draw. Tynnodd y peilot ei gogls ac edrych arnyn nhw.

"Am laniad ofnadwy!" meddai.

"Rwy'n eich adnabod chi!" meddai Cad.



Y Dywysoges Aisha oedd hi. Roedd Cad a Wilff wedi cwrdd â hi o'r blaen mewn antur arall.

"Brensiach," meddai Aisha. "Chi eto."

"Pam drylloch chi'r awyren?" gofynnodd Cad.

"Doeddwn i ddim wedi bwriadu gwneud," meddai Aisha. "Mae fy chwaer, Lisa, wedi ei herwgipio. Rwy wedi dod i'w hachub hi."






“Ddowch chi gyda fi?” gofynnodd Aisha. “Does dim amser i’w wastraffu. Rhaid cael hyd i fy chwaer a’i chael hi allan yn ddiogel.”

“Ond sut gwnawn ni hynny? Does gennych chi ddim awyren nawr,” meddai Cad.

“Meddyliaf fi am rywbeth,” meddai Aisha.




Cychwynnon nhw ar eu taith. Daethon nhw at graig serth. Dringodd Aisha i fyny. Yna, rhoddodd help llaw i Cad. Wedyn, estynnodd y rhaff i Wilff.

“Dy dro di yw e nawr, Wilff. Clyma’r rhaff amdanat. Ond cymer bwyll.”

“Mae hyn yn arswydus,” meddai Wilff wrth iddo ddringo i fyny.





O'r diwedd daethon nhw at gaer yn uchel ar ben clogwyn. Roedd yno furiau trwchus a drysau trymion.

"Dyna ble mae Lisa," meddai Aisha.

"Ond sut cewch chi hi allan o'r fan yna?" gofynnodd Cad.

"Meddyliaf fi am rywbeth," meddai Aisha. "Ond cadwch chi o'r golwg."

Rhoddodd Aisha ei dwylo at ei gilydd. Chwythodd ynddyn nhw i wneud sŵn fel aderyn.

Yna gwelon nhw rywun yn codi llaw o ffenestr.

"Dyna hi," meddai Aisha. "Mae hi wedi fy nghlywed i."

"Ond fedrwn ni ddim dringo i'r fan yna," meddai Wilff.

"Na, rhaid iddi hi ddringo i lawr," meddai Aisha.





Dyweddodd Aisha wrth Cad a Wilff i gadw golwg. Ceisiodd hi daflu rhaff i fyny at Lisa. Ar y dechrau, doedd hi ddim yn gallu ei thaflu yn ddigon uchel.

Ceisiodd eto ac eto. O'r diwedd llwyddodd Lisa i afael yn y rhaff.



Roedd Cad a Wilff yn cadw golwg. Clywon nhw weiddi.


“Mae rhywun yn dod,” sisialodd Cad. “Beth wnawn ni?”

“Ceisiwch roi stop arnyn nhw,” meddai Aisha.

“Ond sut?” gofynnodd Cad.

“Meddyliwch chi am rywbeth,” meddai Aisha.






Meddyliodd Wilff am rywbeth. Cafodd syniad.  
Cofiodd am y cit swigod a dechreuodd chwythu swigod.  
Llithrodd y swigod yn araf tuag at y dynion.  
Doedden nhw ddim wedi gweld swigod mor enfawr  
erioed o'r blaen. Rhedon nhw ar eu hól a cheisio eu  
chwalu.



Neidiodd Lisa i'r ddaear.  
“Go dda,” meddai Aisha.  
Chwythodd Wilff un rhes arall o swigod.  
“Rhedwch nawr,” hisiodd.  
Rhedodd y lleill yn gyflym. “Dyna fe! Rown i'n  
gwybod y byddech chi'n meddwl am rywbeth,” meddai  
Aisha.





Ar y dechrau roedden nhw'n meddwl eu bod wedi dianc. Yna edrychodd Wilff yn ôl. Roedd y dynion yn rhedeg ar eu hôl.

Yna gwelon nhw lori. "Fe geisiaf danio'r injan," meddai Aisha. "Stopiwch chi y dynion."

"Sut wnawn ni hynny?" bloeddiodd Cad.

"Meddyliwch chi am rywbeth," meddai Aisha.

Roedd pentwr o deiars yn y lori. Rhoddon nhw syniad i Cad.

"Rholiwch y teiars ar y ffordd!" gwaeddodd.


Rholion nhw'r teiars ar hyd y trac. Sboncion nhw tua'r dynion.

"Dylai hynny roi stop arnyn nhw," gwaeddodd Lisa.





Taniodd Aisha injan y lori.  
“Daliwch yn dynn!” gwaeddodd.  
Rhoddodd Cad, Wilff a Lisa hwrê fawr wrth i’r lori  
ruo i lawr y trac.  
“Hwrê! Rydyn ni wedi llwyddo,” chwarddodd Aisha.  
“Roedd hynny yn wych!”



Roedd y ffordd yn serth iawn ac yn gul. Sbonciodd y  
lori a bownsio dros y creigiau geirwon a’r cerrig rhydd.  
“Daliwch yn dynn!” bloeddiodd Aisha.  
“Cymerwch ofal,” gwaeddodd Lisa. “Dydyn ni ddim  
eisiau glanio yn yr afon.”





Yn sydyn, dechreuodd y ffordd lithro oddi tanynt.  
Roedd yn lithro i mewn i geunant.

“Cymerwch ofal,” bloeddiodd Lisa. “Mae yna  
dirlithriad. Mae’r ffordd yn lithro i lawr y rhiw.”

Ceisiodd Aisha roi stop ar y lori, ond roedd yn rhy  
hwyr.




Dechreuodd y lori lithro i mewn i’r ceunant. Aeth yn  
gyflymach ac yn gyflymach, gan fwrw creigiau a  
rhwyo gwrychoedd.

“O na!” galwodd Wilff. “Rydyn ni’n mynd ar ein  
pennau i’r afon.”

“Daliwch yn dynn,” gwaeddodd Aisha.





Arhosodd y lori ar ymyl yr afon. Roedd yr olwynion blaen yn hongian dros y lan garegog.

“Whiw!” meddai Aisha. “Roedd hynny’n agos.”

“Nawr beth wnawn ni?” gofynnodd Cad.

“Wn i ddim,” meddai Aisha. “Ond meddyliwn ni am rywbeth.”

Edrychodd Cad a Lisa yn ôl i’r ffordd. Yn y pellter, gwelon nhw’r dynion yn dod.

“Gwell inni feddwl am rywbeth yn sydyn,” meddai Lisa. “Bydd y dynion yna fan hyn cyn hir.”

“Rhaid inni ddianc rhagdyn nhw,” meddai Aisha. “Fedrwn ni ddim gadael iddyn nhw ein dal.”






Roedd Wilff wedi dod o hyd i diwbiau teiars yng  
nghefn y lori. Cafodd syniad.

“Gallwn arnofio i lawr yr afon yn y tiwbiau hyn,”  
meddai. “Bydd raid inni eu chwythu nhw i fyny.”

Edrychodd Aisha yng nghefn y lori a chafodd afael  
ar bwmp. Dechreuodd chwythu awyr i’r tiwbiau.




Pwmpiodd yr un olaf mewn pryd. Eisteddodd y plant  
ar diwb yr un a gwthiodd Aisha nhw allan i’r afon.

Neidiodd hi ar y tiwb olaf wrth i’r dynion ddringo i  
lawr i’r dŵr.

“Ha! Rhy hwyr!” gwaeddodd hi.





Arnofiodd y pedwar ohonyn nhw i lawr yr afon ar y tiwbiau teiars.

Symudon nhw yn sydyn gyda llif cyflym yr afon.

Pasion nhw drwy geunant cul. Roedd iddo ochrau uchel serth.

Yna aeth y ceunant yn fwy cul. Dechreuodd yr afon lifo'n gyflymach. O'u blaenau, gallent weld dŵr yn byrlymu.

“Mae hyn yn arswydus,” meddai Cad. “Gallaf weld dŵr gwyn o'm blaen. Beth os mai rhaedr yw hi?”

“Paid â phoeni,” meddai Aisha. “Meddylwn ni am rywbeth.”






Rhuthrodd a rhuodd y dŵr drwy'r ceunant. Sbonciodd a llamodd y tiwbiau trwy'r dŵr wrth iddyn nhw fynd yn gyflymach ac yn gyflymach.

“Daliwch yn dynn,” bloeddiodd Aisha. “Fydd e ddim yn hir.”

“Rwy'n gwlychu,” gwaeddodd Wilff.

“O leiaf nid rhaeadr yw hi,” meddai Cad.




O'r diwedd arnofion nhw i ddyfroedd tawel.

“Whiw! Roedd hynny'n gyffrous!” meddai Lisa.

Edrychodd Cad i lawr yr afon. Gwelodd gwch yn dod tuag atyn nhw.

“O help!” meddai. “Mae'n edrych fel y dynion yna eto. Nawr beth wnawn ni?”






Chwarddodd Aisha a Lisa.

“Rydyn ni yn ôl yn ddiogel yn fy nheyrnas nawr,”  
meddai Aisha. “Fy mhobl i yw’r rhain.”

Siglodd law pawb.

“Rwy’n siŵr nad oes llawer yn cyrraedd fan hyn ar  
diwb teiar,” chwarddodd Wilff.



Dyweddodd y dynion yr aent ag Aisha a Lisa adref i’w  
palas.

“Mae’r allwedd yn disgleirio. Mae’n amser mynd,”  
meddai Cad. “Chawn ni ddim mynd ar gefn camel.”

“Pob hwyl. Diolch am helpu,” meddai Aisha.

“Pob hwyl,” galwodd Wilff.





“Roedd yr antur hon yn gyffrous,” meddai Cad.

“Rown i’n hoffi’r Dywysoges Aisha. Roedd hi’n hwyl.”

Daeth Dids i mewn i ystafell Cad.

“Beth am fynd allan i chwarae?” gofynnodd.

“Beth wnawn ni chwarae?” gofynnodd Cad.

“Meddyli di am rywbeth,” gwenodd Wilff.



# Achub!



Mae Cad a Wilff yn cwrdd â'r  
dywysoges eto mewn antur arall.  
Sut y gall chwythu ychydig o swigod  
helpu Cad a Wilff i achub chwaer y  
Dywysoges Aisha?



Cam 9 Rhagor o Storiâu A  
Trefn ddarllen a argymhellir:

Y Llygad Glas  
Achub!

Antur yn yr Iseldiroedd

Y Gorau yn y Lle

Y Peiriant Hedfan

Trafferth gydag Allwedd

Addasiad Cymraeg gan  
Juli Paschalis

